# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 2

Y DRETH A'R PRIF GYSYNIADAU

## PENNOD 4

TRAFODIADAU TRETHADWY A CHYDNABYDDIAETH DRETHADWY

*Cydnabyddiaeth drethadwy*

### 19 Cydnabyddiaeth ddibynnol

(1) Pan fo'r holl gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer trafodiad, neu ran ohoni, yn ddibynnol, mae swm neu werth y gydnabyddiaeth i'w bennu at ddibenion y Ddeddf hon ar y rhagdybiaeth y bydd canlyniad y digwyddiad dibynnol yn golygu bod y gydnabyddiaeth yn daladwy neu, yn ôl y digwydd, nad yw'n peidio â bod yn daladwy.

(2) Yn y Ddeddf hon, ystyr "dibynnol", mewn perthynas â chydnabyddiaeth, yw—

(a) nad yw i'w thalu neu i'w darparu oni cheir rhyw ddigwyddiad ansicr yn y dyfodol, neu

(b) y peidir â'i thalu neu ei darparu os ceir rhyw ddigwyddiad ansicr yn y dyfodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** A. 19 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 19.